WELSH REFUGEE COALITION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mynediad at wasanaethau cymdeithasol a gofal a chymorth arall i geiswyr lloches diymgeledd nad oes cronfeydd cyhoeddus ar gael iddynt

Mae'r nodyn hwn yn rhoi sylw i rai o'r materion cyffredin ynghylch cymhwystra am gefnogaeth awdurdodau lleol yng Nghymru i unigolion sy'n geiswyr lloches diymgeledd nad oes cronfeydd cyhoeddus ar gael iddynt[1] (NRPF). Cafodd ei ddrafftio gan aelodau o Gynghrair Ffoaduriaid Cymru a'i gymeradwyo a'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Ei nod yw esbonio'r sefyllfa gyfreithiol ar hyn o bryd mewn perthynas â rhai camsyniadau cyffredin yn y maes cymhleth hwn, gan adeiladu ar gyngor perthnasol mewn rhannau eraill o'r DU. Ei fwriad yw cefnogi gweithwyr cymdeithasol yn eu hymarfer trwy ddarparu cyngor ffeithiol clir ar yr hyn y gellir ei wneud o ran Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014') i gefnogi ceiswyr lloches diymgeledd a dyletswyddau a phwerau perthnasol awdurdodau lleol.

Isod mae cyfres o gamsyniadau cyffredin (yn yr adrannau glas) am Ddeddf 2014 ac ymatebion (yn yr adrannau gwyrdd) sy'n gadarnhaol ynglŷn â'r hyn y gellir ac y dylid ei wneud.

| |
|---|
| Ni all pobl gael eu cynorthwyo gan wasanaethau cymdeithasol os nad oes cronfeydd cyhoeddus ar gael iddynt (NRPF). |
| Mae'r amod NRPF ond yn gyfyngiad ar fynediad at nawdd cymdeithasol prif ffrwd, cymorth digartrefedd a dyraniad tai cymdeithasol awdurdod lleol[2]. Nid yw cymorth gwasanaethau cymdeithasol yn gronfa gyhoeddus at ddibenion mewnfudo, ac ni ddylai cymorth gael ei wrthod am y rheswm hwn yn unig. Mae *Adran 35 - Dyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn* yn nodi bod rhaid i awdurdod lleol ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn os yw'n fodlon ei fod yn bodloni amodau penodol; ei fod fel arfer yn byw yn ardal yr awdurdod lleol neu nad oes ganddo gartref sefydlog ond ei fod yn byw yn ardal yr awdurdod; bod ei anghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwystra neu fod yr awdurdod lleol o'r farn bod angen diwallu'r anghenion er mwyn diogelu'r oedolyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod neu rhag y risg o gamdriniaeth neu esgeulustod. Felly, mae dyletswydd Adran 35 yn berthnasol i'r holl breswylwyr, beth bynnag fo'u statws mewnfudo, ac wedi'i chyfyngu'n unig gan yr Eithriadau i gymorth gwasanaethau cymdeithasol a amlinellir o dan Atodlen 3 o Ddeddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2002. Fodd bynnag, mae a all awdurdod lleol ddiwallu anghenion gofal a chymorth yn amodol ar adran 46.[3] |

[1] Mae diymgeledd (*destitution*) wedi'i ddiffinio o dan Adran 95 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999. *A person is destitute if –(a) he does not have adequate accommodation or any means of obtaining it (whether or not his other essential living needs are met); or (b) he has adequate accommodation or the means of obtaining it,but cannot meet his other essential living needs.*

[2] Yn unol ag adran 115 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 a pharagraff 6 o'r Rheolau Mewnfudo.

[3] O dan adran 46 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ni all awdurdod lleol ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn y mae adran 115 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 yn berthnasol iddo y mae ei anghenion gofal a chymorth wedi codi gan fod yr oedolyn yn ddiymgeledd neu oherwydd effeithiau corfforol bod yn ddiymgeledd neu'r effeithiau corfforol a ragwelir yn sgil bod yn ddiymgeledd.

| |
|---|
| Mae gan wasanaethau cymdeithasol ddyletswydd i gynorthwyo plentyn mewn teulu NRPF yn unig, felly gall gynorthwyo'r plentyn ond nid y rhiant. |
| Mae *Adran 39 – Dyletswydd i gynnal cyswllt â'r teulu* yn nodi y dylai awdurdod lleol gymryd camau sy'n rhesymol ymarferol i alluogi'r plentyn i fyw gyda theulu'r plentyn os bydd yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol i hyrwyddo llesiant y plentyn. Nid yw cynnig lletya'r plentyn ar ei ben ei hun neu dderbyn y plentyn i ofal yn ymateb priodol yn absenoldeb unrhyw bryderon diogelu sy'n ychwanegol i'r risg i'r plentyn yn sgil diffyg cartref ac incwm y rhiant, ac mae'n debygol o arwain at dorri *Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) – hawl i barch at fywyd teuluol.* |

| |
|---|
| Ni all gwasanaethau cymdeithasol helpu gan nad yw'r awdurdod lleol yn derbyn cyllid i ddarparu cymorth i oedolion, pobl ifanc a phlant NRPF. |
| Er nad oes gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i ddiwallu'r holl anghenion a aseswyd yn ffurfiol[4] ac y gall ystyried ei adnoddau wrth bennu pa anghenion i'w diwallu, mae ganddo rwymedigaeth i sicrhau nad yw hawliau dynol unigolyn yn cael eu gwrthod trwy fethu â darparu cymorth neu drwy ddarparu cymorth annigonol. Felly, rhaid i benderfyniad i ddiwallu rhai anghenion a aseswyd – ond nid pob un ohonynt – gael ei wneud yn rhesymol, a rhaid i'r awdurdod lleol weithredu'n rhesymol o dan yr amgylchiadau. |

| |
|---|
| Ni all gwasanaethau cymdeithasol helpu person heb ganiatâd i aros gan nad yw wedi gwneud cais am ganiatâd i aros i'r Swyddfa Gartref. |
| Mae rhwymedigaeth awdurdod lleol i gynnal asesiad o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn codi'n annibynnol o unrhyw ystyriaeth o'r math o statws mewnfudo sydd gan berson neu deulu. Nid yw statws mewnfudo person yn atal asesiad brys rhag cael ei gynnal mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc neu oedolyn. Ni ddylai absenoldeb cais mewnfudo atal asesiad rhag cael ei gynnal na chymorth interim rhag cael ei ddarparu yn ôl yr angen. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod unigolion agored i niwed yn cael eu cyfeirio at gyngor mewnfudo, yn hytrach na gwneud rhagdybiaethau yn seiliedig ar y cyswllt cyntaf. Fodd bynnag, bydd statws mewnfudo'r oedolyn neu'r rhiant, ac a oes unrhyw geisiadau wedi'u gwneud, yn dod yn ffactorau perthnasol wrth bennu a yw eithriad *Adran 46 – Eithriad ar gyfer pobl sy'n destun rheolaeth mewnfudo* i gymorth gwasanaethau cymdeithasol yn berthnasol. Gweler hefyd yr eithriadau i gymorth gwasanaethau cymdeithasol a restrir yn Atodlen 3 i Ddeddf Mewnfudo, Lloches a |

[3] Yn unol ag adran 115 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 a pharagraff 6 o'r Rheolau Mewnfudo.
[4] O dan Reoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015, rhaid i awdurdod lleol ddefnyddio'r prawf cymhwystra i bennu a oes gan unigolyn (mae hyn yn cynnwys oedolion a phlant) ag anghenion a nodwyd mewn asesiad yr hawl i gael yr anghenion hynny wedi'u diwallu gan awdurdod lleol.

Chenedligrwydd 2002.

Ni all menyw feichiog NRPF nad oes ganddi unrhyw blant eraill yn ei gofal gael cymorth hyd nes i'w phlentyn gael ei eni.

Efallai y bydd angen i awdurdod lleol ystyried a yw menyw feichiog NRPF angen gofal a chymorth, ac felly yn gallu derbyn llety a chymorth o dan Ddeddf 2014.

Mewn teuluoedd lle mae gan y rhiant ganiatâd i aros yn NRPF, nid oes rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu cymorth gan fod y rhiant yn gallu gweithio.

Yn amodol ar adran 46, mae darpariaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu cymorth ariannol a/neu dai i'r rhai ag anghenion gofal a chymorth ac NRPF er mwyn atal digartrefedd neu ddiymgeledd. Er nad yw'r cymorth hwn gan yr awdurdod lleol yn cael ei ariannu gan lywodraeth ganolog, byddai'n anghyfreithlon i'r awdurdod lleol beidio â darparu cymorth ar sail y ffaith y 'gallai'r rhiant weithio' ac yn absenoldeb asesiad yn amlinellu sut y gellir diwallu anghenion llawn y plentyn yn annibynnol ar y cymorth hwn. Os oes gan riant NRPF a bod ganddo ganiatâd i weithio, bydd un agwedd ar asesiad yn cynnwys ystyried a yw cyflogaeth yn opsiwn ymarferol iddynt. Yn aml, mae rhieni ag NRPF yn cael eu hatal rhag gweithio oherwydd costau gofal plant a thai anfforddiadwy. Gall awdurdod lleol ond gwrthod darparu cymorth os bydd asesiad yn dod i'r casgliad nad yw plentyn mewn angen, neu os nodwyd angen nad yw'n bodloni'r meini prawf cymhwystra.

**Atodiad**

Mae'r No Recourse to Public Funds Network wedi cyhoeddi adnoddau yn ymwneud â darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yma:

http://www.nrpfnetwork.org.uk/information/Pages/Social-Services.aspx

Isod mae testunau llawn yr adrannau o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 y cyfeiriwyd atynt uchod, ac mae'r Codau Ymarfer a'r canllawiau statudol perthnasol ar gael yma:

https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb

**Rhan 1**

**Adran 2 Ystyr 'llesiant'**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddiben y Ddeddf hon.

(2) Ystyr "llesiant", o ran person, yw llesiant mewn perthynas ag unrhyw un neu rai o'r canlynol—

(a) iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol;

(b) amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod;

(c) addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden;

(d) perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol;

(e) cyfraniad a wneir at y gymdeithas;

(f) sicrhau hawliau a hawlogaethau;

(g) llesiant cymdeithasol ac economaidd;

(h) addasrwydd llety preswyl.

(3) O ran plentyn, mae "llesiant" hefyd yn cynnwys—

(a) datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol;

(b) "lles" fel y diffinnir y term Saesneg cyfatebol "welfare" at ddibenion Deddf Plant 1989.

(4) O ran oedolyn, mae "llesiant" hefyd yn cynnwys—

(a) rheolaeth ar fywyd pob dydd;

(b) cymryd rhan mewn gwaith.

**Rhan 2**

**Adran 5 Dyletswydd llesiant**

Rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon geisio hyrwyddo llesiant—

(a) pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, a

(b) gofalwyr y mae arnynt angen cymorth.

**Adran 7 Dyletswyddau hollgyffredinol eraill: Egwyddorion a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig**

(1) Rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn perthynas ag oedolyn sy'n dod o fewn adran 6(1)(a) neu (b) roi sylw dyladwy i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a fabwysiadwyd gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar 16 Rhagfyr 1991.

(2) Rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn perthynas â phlentyn sy'n dod o fewn adran 6(1)(a), (b) neu (c) roi sylw dyladwy i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a fabwysiadwyd ac a agorwyd i'w lofnodi, ei gadarnhau a'i gytuno drwy benderfyniad y Cynulliad Cyffredinol 44/25 dyddiedig 20 Tachwedd 1989 ("y Confensiwn").

(3) At ddibenion is-adran (2), mae Rhan 1 o'r Confensiwn i'w thrin fel pe bai'n cael effaith—

(a) fel a nodir am y tro yn Rhan 1 o'r Atodlen i Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, ond

(b) yn ddarostyngedig i unrhyw ddatganiad neu neilltuad fel a nodir am y tro yn Rhan 3 o'r Atodlen honno.

(4) Nid yw is-adran (2) yn gymwys i Weinidogion Cymru (gweler, yn lle hynny, Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011).

**Rhan 3**

**Adran 19 Dyletswydd i asesu anghenion oedolyn am ofal a chymorth**

(1) Pan fo'n ymddangos i awdurdod lleol y gall fod ar oedolyn anghenion am ofal a chymorth, rhaid i'r awdurdod asesu—

(a) a oes ar yr oedolyn anghenion am ofal a chymorth, a

(b) os oes, beth yw'r anghenion hynny.

(2) Mae'r ddyletswydd o dan is-adran (1) yn gymwys o ran—

(a) oedolyn sy'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod, a

(b) unrhyw oedolyn arall sydd o fewn ardal yr awdurdod.

(3) Mae'r ddyletswydd o dan is-adran (1) yn gymwys ni waeth beth yw barn yr awdurdod lleol ar—

(a) lefel anghenion yr oedolyn am ofal a chymorth, neu

(b) lefel adnoddau ariannol yr oedolyn.

(4) Wrth wneud asesiad o anghenion o dan yr adran hon, rhaid i'r awdurdod lleol—

(a) ceisio canfod y canlyniadau y mae'r oedolyn yn dymuno eu sicrhau mewn bywyd o ddydd i ddydd,

(b) asesu a allai darparu—

(i) gofal a chymorth,

(ii) gwasanaethau ataliol, neu

(iii) gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy,

gyfrannu at sicrhau'r canlyniadau hynny neu fel arall ddiwallu'r anghenion a nodir gan yr asesiad, ac os felly, i ba raddau, ac

(c) asesu a allai materion eraill gyfrannu at sicrhau'r canlyniadau hynny neu fel arall ddiwallu'r anghenion hynny, ac os felly, i ba raddau.

(5) Rhaid i awdurdod lleol, wrth iddo wneud asesiad o anghenion o dan yr adran hon, gynnwys—

(a) yr oedolyn, a

(b) pan fo'n ddichonadwy, unrhyw ofalwr sydd gan yr oedolyn.

(6) Natur yr asesiad o anghenion sy'n ofynnol gan yr adran hon yw un y mae'r awdurdod lleol yn barnu ei fod yn gymesur o dan yr amgylchiadau, yn ddarostyngedig i unrhyw ofyniad mewn rheoliadau o dan adran 30.

**Adran 21  Dyletswydd i asesu anghenion plentyn am ofal a chymorth**[5]
Pan fo'n ymddangos i awdurdod lleol y gall fod angen gofal a chymorth ar blentyn yn ychwanegol at, neu yn lle, y gofal a'r cymorth sy'n cael eu darparu gan deulu'r plentyn, rhaid i'r awdurdod asesu—

(a) a oes angen gofal a chymorth o'r math hwnnw ar y plentyn, a

(b) os oes, beth yw'r anghenion hynny.

(2) Mae'r ddyletswydd o dan is-adran (1) yn gymwys o ran—

(a) plentyn sy'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod, a

(b) unrhyw blentyn arall sydd o fewn ardal yr awdurdod.

(3) Mae'r ddyletswydd o dan is-adran (1) yn gymwys ni waeth beth fo barn yr awdurdod lleol—

(a) ar lefel anghenion y plentyn am ofal a chymorth, neu

(b) ar lefel adnoddau ariannol y plentyn, rhieni'r plentyn neu unrhyw berson arall a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

(4) Wrth wneud asesiad o anghenion o dan yr adran hon, rhaid i'r awdurdod lleol—

(a) asesu anghenion datblygiadol y plentyn,

(b) ceisio canfod y canlyniadau—

(i) y mae'r plentyn yn dymuno eu sicrhau, i'r graddau y mae'n barnu ei bod yn briodol o roi sylw i oedran a dealltwriaeth y plentyn,

(ii) y mae'r personau a chanddynt gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn dymuno eu sicrhau mewn perthynas â'r plentyn, i'r graddau y mae'n barnu ei bod yn briodol o roi sylw i'r angen am hyrwyddo llesiant y plentyn, a

(iii) y mae personau a bennir mewn rheoliadau (os oes rhai) yn dymuno eu sicrhau mewn perthynas â'r plentyn,

(c) asesu a allai darparu—

(i) gofal a chymorth,

(ii) gwasanaethau ataliol, neu

(iii) gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy,

gyfrannu at sicrhau'r canlyniadau hynny neu fel arall ddiwallu'r anghenion hynny, ac os felly, i ba raddau,

(d) asesu a allai materion eraill gyfrannu at sicrhau'r canlyniadau hynny neu fel arall ddiwallu'r anghenion hynny, ac os felly, i ba raddau, ac

(e) ystyried unrhyw amgylchiadau eraill sy'n effeithio ar lesiant y plentyn.

(5) Rhaid i awdurdod lleol, wrth iddo wneud asesiad o anghenion o dan yr adran hon, gynnwys—

(a) y plentyn, a

(b) unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

(6) Natur yr asesiad o anghenion sy'n ofynnol gan yr adran hon yw un y mae'r awdurdod lleol yn barnu ei fod yn gymesur o dan yr amgylchiadau, yn ddarostyngedig i unrhyw ofyniad mewn rheoliadau o dan adran 30.

(7) At ddibenion is-adran (1) rhagdybir bod angen gofal a chymorth ar blentyn anabl yn ychwanegol at, neu yn lle, y gofal a'r cymorth sy'n cael eu darparu gan deulu'r plentyn.

---

[5] Mae'r meini prawf cymhwystra ar gyfer Adran 21 wedi'u nodi yn **Rheoliad 4.**

(8) Nid yw’r adran hon yn gymwys i blentyn sy’n derbyn gofal gan—

(a) awdurdod lleol,

(b) awdurdod lleol yn Lloegr,

(c) awdurdod lleol yn yr Alban, neu

(d) ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**Rhan 4**

**Adran 35 Dyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn**
(1) Rhaid i awdurdod lleol ddiwallu anghenion oedolyn am ofal a chymorth os caiff ei fodloni bod amodau 1, 2 a 3 wedi eu cyflawni (ond gweler is-adran (6)).

(2) Amod 1 yw—

(a) bod yr oedolyn yn preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol, neu

(b) nad oes gan yr oedolyn breswylfa sefydlog a’i fod o fewn ardal yr awdurdod.

(3) Amod 2 yw—

(a) bod yr anghenion yn bodloni’r meini prawf cymhwystra, neu

(b) bod yr awdurdod lleol yn barnu ei bod yn angenrheidiol diwallu’r anghenion er mwyn amddiffyn yr oedolyn rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu rhag risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

(4) Amod 3 yw—

(a) nad oes unrhyw ffi yn cael ei chodi am y gofal a’r cymorth y mae eu hangen i ddiwallu’r anghenion hynny, neu

(b) bod ffi yn cael ei chodi am y gofal a’r cymorth hwnnw ond—

(i) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni ar sail asesiad ariannol bod adnoddau ariannol yr oedolyn ar neu islaw’r terfyn ariannol,

(ii) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni ar sail asesiad ariannol bod adnoddau ariannol yr oedolyn uwchlaw’r terfyn ariannol ond bod yr oedolyn, serch hynny, yn gofyn i’r awdurdod ddiwallu ei anghenion, neu

(iii) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni nad oes gan yr oedolyn alluedd i drefnu ar gyfer darparu gofal a chymorth ac nad oes unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi i wneud trefniadau o’r fath o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 neu sydd fel arall mewn sefyllfa i wneud hynny ar ran yr oedolyn.

(5) I gael ystyr “asesiad ariannol” a “terfyn ariannol” gweler Rhan 5.

(6) Nid yw’r ddyletswydd o dan is-adran (1) yn gymwys i anghenion oedolyn i’r graddau y mae’r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod yr anghenion hynny yn cael eu diwallu gan ofalwr.

**Adran 37 Dyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn**
(1) Rhaid i awdurdod lleol ddiwallu anghenion plentyn am ofal a chymorth os caiff ei fodloni bod amodau 1 a 2, ac unrhyw amodau a bennir mewn rheoliadau, wedi eu cyflawni (ond gweler is-adrannau (5) a (6)).

(2) Amod 1 yw bod y plentyn yn ardal yr awdurdod lleol.

(3) Amod 2 yw—

(a) bod yr anghenion yn bodloni’r meini prawf cymhwystra, neu

(b) bod yr awdurdod lleol yn barnu ei bod yn angenrheidiol diwallu’r anghenion er mwyn amddiffyn y plentyn—

(i) rhag cael, neu rhag risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu

(ii) rhag cael, neu rhag risg o gael, ei niweidio mewn modd arall.

(4) Os yw'r awdurdod lleol wedi ei hysbysu am blentyn o dan adran 120(2)(a), rhaid iddo drin y plentyn fel un sydd o fewn ei ardal at ddibenion yr adran hon.

(5) Nid yw'r ddyletswydd o dan is-adran (1) yn gymwys i anghenion plentyn i'r graddau y mae'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod yr anghenion hynny yn cael eu diwallu gan deulu'r plentyn neu ofalwr.

(6) Nid yw'r adran hon yn gymwys i blentyn sy'n derbyn gofal gan—

(a) awdurdod lleol,

(b) awdurdod lleol yn Lloegr,

(c) awdurdod lleol yn yr Alban, neu

(d) ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**Adran 39 Dyletswydd i gadw cyswllt â'r teulu**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i blentyn—

(a) sydd o fewn ardal awdurdod lleol,

(b) y mae'r awdurdod lleol o'r farn bod ganddo anghenion am ofal a chymorth yn ychwanegol at y gofal a'r cymorth sy'n cael eu darparu gan deulu'r plentyn,

(c) sy'n byw ar wahân i'w deulu, a

(d) nad yw'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

(2) Os yw'r awdurdod lleol o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn hyrwyddo llesiant y plentyn, rhaid iddo gymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol er mwyn—

(a) galluogi'r plentyn i fyw gyda'i deulu, neu

(b) hyrwyddo cyswllt rhwng y plentyn a'i deulu.

**Adran 46 Eithriad ar gyfer personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo**

1) Ni chaiff awdurdod lleol ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn y mae adran 115 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 ("Deddf 1999") (gwahardd rhag budd-daliadau) yn gymwys iddo a'r unig reswm y mae ei anghenion am ofal a chymorth wedi codi yw—

(a) oherwydd bod yr oedolyn yn ddiymgeledd, neu

(b) oherwydd effeithiau corfforol bod yn ddiymgeledd, neu oherwydd yr effeithiau o'r math hwnnw a ragwelir.

(2) At ddibenion is-adran (1), mae adran 95(2) i (7) o Ddeddf 1999 yn gymwys ond mae'r cyfeiriadau yn adran 95(4) a (5) o'r Ddeddf honno at yr Ysgrifennydd Gwladol i'w darllen fel cyfeiriadau at yr awdurdod lleol o dan sylw.

(3) Ond, hyd nes cychwyn adran 44(6) o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002, mae is-adran (2) i gael effaith fel pe bai'n darllen fel a ganlyn—

"(2) For the purposes of subsection (1), section 95(3) and (5) to (8) of, and paragraph 2 of Schedule 8 to, the 1999 Act apply but with references in section 95(5) and (7) and that paragraph to the Secretary of State being read as references to the local authority in question."

(4) Mae'r cyfeiriad yn is-adran (1) at ddiwallu anghenion oedolyn am ofal a chymorth yn cynnwys cyfeiriad at wneud hynny er mwyn diwallu anghenion gofalwr am gymorth.

*****

Cynghrair Ffoaduriaid Cymru

Mae Cynghrair Ffoaduriaid Cymru yn gynghrair o 47 o sefydliadau sy'n gweithio gyda cheiswyr lloches a ffoaduriaid ar bob rhan o'u taith, a gyda'r cymunedau y maent yn byw ynddynt. Mae aelodau'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio hyd eithaf eu gallu, ac rydym yn ceisio siarad â llais cryf a chydlynol ar bolisïau ac arferion sy'n effeithio ar bobl sy'n ceisio lloches yng Nghymru.

Nododd y trydydd sector ac awdurdodau cyhoeddus anghenion gofal a chymorth ceiswyr lloches fel blaenoriaeth ar gyfer gweithredu. Mae'r papur hwn yn adeiladu ar y gwaith hwn, a chafodd ei ddrafftio'n wreiddiol gan aelodau'r Gynghrair sy'n gysylltiedig â'r maes hwn.

******
http://www.migrationscotland.org.uk/uploads/Migrants%20Rights%20and%20Entitlements%20Guidance.pdf

Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Convention of Scottish Local Authorities (COSLA) a Llywodraeth yr Alban ganllawiau ar *Migrants' Rights and Entitlements to Local Authority Services and Support* sy'n dweud: "*The UK immigration system is very complex as people can be issued with many different types of immigration status and documents. Misunderstandings can often arise about how the law applies to different migrant groups and what their entitlements are, for example, what assistance social services can provide to people with no recourse to public funds (NRPF).*"